



Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

2018/19

www.gwynedd.llyw.cymru



Arweiniad leithyddol

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, gofynnwch i rywun yr ydych yn eu hadnabod sydd yn siarad Cymraeg neu Saesneg ffonio 01766 771000. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'r Saesneg.

If you need further information, please ask someone you know who speaks English or Welsh to telephone 01766 771000 / We welcome telephone calls in Welsh or English.

Jeżeli potrzebują państwo dalszych informacji, proszę poprosić kogoś, kto mówi po angielsku lub walijsku żeby zadzwonił pod numer 01766 771000

Se você precisar de nova informação, por favor pergunte alguém você sabe quem diz o galês o'r inglês para telefonar 01766 771000

如果您需要更多信息，请向你认识的人谁讲英语或威尔士电话：01766 771000

আপনার যদি আরো তথ্যের প্রয়োজন হয়, তাহলে আপনার জানা ইংরেজী অথবা ওয়েলশ ভাষা বলতে পারেন এমন কাউকে অনুগ্রহ করে 01766 771000 নম্বরে টেলিফোন করতে বলুন

اگر آپ کو مزید معلومات درکار ہوں تو برائے مہربانی انگریزی یا ویلش زبان جاننے والے اپنے کسی واقف کار سے کہیں کہ وہ آپ کی جانب سے فون نمبر 01766 771000 سے رابطہ کریں۔

إذا كنت بحاجة إلى مزيد من المعلومات ، يرجى الطلب من شخص ما تعرف من يتحدث الإنجليزية أو الويلزية الهاتف 01766771000

Cyflwyniad Agoriadol y Cyfarwyddwr

Mae'n bleser ac yn ffrind gennyf gyflwyno fy adroddiad blynyddol am 2018/19. Rwy'n falch iawn o adrodd mai perfformiad cadarnhaol sydd wedi ei weld unwaith eto eleni. Fel yr wyf wedi adrodd mewn adroddiadau blaenorol, rydym ar siwrnai o drawsffurfio ac felly mae'n gyfnod cyffrous iawn.

Er y brwdfrydedd i wneud y newidiadau hyn, mae'n gyfnod sydd yn gallu bod yn heriol i staff ac hefyd i drigolion Gwynedd. Rydym yn ceisio newid ein trefniadau gwaith i'w gwneud yn symlach ac yn fwy effeithiol, ond mae'r newidiadau yma ar waith tra ein bod hefyd yn parhau i ddarparu gwasanaethau i bobl. Hoffwn ddiolch felly i holl staff y Cyngor a staff ein partneriaid allweddol am eu gwaith caled a'u hymroddiad i wneud y perfformiad 'rwyf yn adrodd arno eleni mor bositif.

Diolchaf hefyd wrth gwrs i drigolion Gwynedd, boed nhw'n ddefnyddwyr o'n gwasanaethau neu yn ofalwyr, am eu mewnbwn i lunio'r gwasanaethau a'r newidiadau sydd ar waith. Mae eu mewnbwn yn allweddol os ydym am wirioneddol greu darpariaethau ac ymyraethau iechyd a gofal sydd yn ymateb orau i'r hyn mae pobl ei angen. Mae cymunedau ffyniannus a gwydn hefyd yn allweddol a byddwn yn gweithio gyda chymunedau i adnabod sut y gallwn wella rhwydweithiau lleol fel bod unigolion yn gallu parhau i fyw yn eu cymunedau gyn hired â phosib.

Rwyf wedi derbyn llythyr blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC/CIW) sydd yn gadarnhaol tu hwnt. Maent yn cadarnhau bod ein hunan-asesiad o wasanaethau cymdeithasol y Cyngor yn ddarlun teg a chywir o'n sefyllfa gyfredol, ac ein bod wedi gwneud cynnydd da gyda'r gwaith o drawsffurfio. Wrth gwrs mae meysydd lle rydym angen gwneud newidiadau, neu gyflymu'r newid, ond ar y cyfan mae ein gwasanaethau o safon uchel, gyda'r newidiadau ar waith yn cael eu croesawu ac yn arloesol.

Edrychaf ymlaen yn fawr iawn at y flwyddyn o'n blaenau. Hoffwn weld budd o'r newidiadau yr ydym yn eu gwneud o fewn ein cymunedau o ran datblygu trefniadau mwy cydlynol gyda'r Gwasanaeth Iechyd, sydd yn cynnwys cefnogaeth llawer mwy lleol i nifer o feysydd fel iechyd meddwl, anableddau dysgu a'r gefnogaeth i blant a phobl ifanc. Fy mwriad yw ceisio sicrhau bod gennym fesurau sydd yn rhoi'r sicrwydd i mi ein bod yn cyflawni yr hyn sy'n bwysig i unigolion.

Mae gennym sylfeini ardderchog yma yng Ngwynedd ar gyfer adeiladu ein gwasanaethau o fewn cymunedau cefnogol a chyfeillgar. Edrychaf ymlaen i weld ffrwyth gwaith pawb.



Morwena Edwards,
Cyfarwyddwr Corfforaethol a
Chyfarwyddwr Statudol
Gwasanaethau Cymdeithasol

1. Cyflwyniad	1
2. Sut mae pobl yn llunio ein gwasanaethau?	2
3. Hyrwyddo a gwella lles y rheini yr ydym yn eu cynorthwyo	3
4. Sut yr ydym yn gwneud yr hyn yr ydym yn ei wneud?	27
5. Blaenoriaethau 2019/20	32
6. Mynediad at wybodaeth bellach a dogfennau allweddol	33
ATODIAD 1:	34
Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd 2018/19	

1. Cyflwyniad

Ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol baratoi a chyhoeddi adroddiad ynglŷn â dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol dros y flwyddyn flaenorol.

Pwrpas yr adroddiad blynyddol hwn, felly, yw gwerthuso perfformiad yr awdurdod lleol mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol, a thynnu sylw at unrhyw wersi sydd wedi'u dysgu neu welliannau sydd angen eu cyflwyno.

Dylai'r adroddiad hefyd osod amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod mewn perthynas â hyrwyddo llesiant pobl a gofalwyr sydd angen gofal a chefnogaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn trefn benodol, gan bod angen i ni adrodd ar sut yr ydym fel Cyngor wedi cyflawni yn erbyn y chwe safon ansawdd llesiant sydd wedi'u nodi o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae ffurf yr adroddiad bellach yn ofyniad, ac mae gofyn i bob awdurdod lleol fesur perfformiad eu gwasanaethau cymdeithasol drwy ddefnyddio'r dangosyddion a'r mesurau perfformiad perthnasol yn erbyn y safonau ansawdd.

Er mwyn llunio'r adroddiad hwn, cefais sylwadau a chymorth gan grwpiau ffocws, a diolch yn fawr iawn i bawb am eu cyfraniadau. Wedi darllen yr adroddiad, pe byddai gennych unrhyw sylwadau ar y cynnwys, neu o ran sut i lunio gwasanaethau at y dyfodol, rwy'n awyddus iawn i glywed gennych:



AwenMorwenaEdwards@gwynedd.llyw.cymru



01286 679468



2. Sut Mae Pobl yn Llunio Ein Gwasanaethau

Mae'n gwbl allweddol bod y gwasanaethau gofal a lles yr ydym yn eu darparu i bobl Gwynedd yn cwrdd â'u gofynion. Er mwyn cynllunio a darparu'r gwasanaeth y mae ein trigolion ei angen mae'n amlwg mai'r cam cyntaf yw gwrandao ar lais a barn ein trigolion eu hunain.

Yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (2014), mae aelodau o'r Timau Adnoddau Cymunedol eisoes yn cynnal sgysiau gydag unigolion a'u teuluoedd i ddarganfod 'beth sy'n bwysig' iddynt. Nod creu Asesiad Anghenion Poblogaeth i Wynedd, felly, yw casglu gwybodaeth gan unigolion a'u teuluoedd ac yna'i ddadansoddi er mwyn i ni gynllunio'r gefnogaeth orau iddynt fedru 'Byw eu bywydau fel y maent yn ei ddymuno'.

Yn yr un modd o fewn maes plant, mae barn y plentyn a phlant yn gyffredinol yn rhan annatod o sut yr ydym yn ceisio darparu gwasanaethau. Mae plentyn mewn gofal bellach yn aelod o'r Panel Rhiant Corfforaethol.

Drwy ragweld anghenion hirdymor ein trigolion ein nod yw ceisio atal rhai problemau rhag dyfnhau, yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Os ydym yn ymwybodol o'r rhwystrau sy'n ein hwynebu rhag darparu'r gwasanaethau gorau i'n trigolion gallwn geisio eu cyfarch mewn pryd.

Un elfen hanfodol o'n ffordd ni o weithio fel Cyngor yw sicrhau bod gennym drefniadau ymgysylltu addas â'n trigolion. Rydym am sicrhau ein bod yn defnyddio gwahanol ddulliau o ymgysylltu, neu drafod, gyda'n trigolion er mwyn rhoi gymaint o gyfle a phosib i bawb dderbyn gwybodaeth am yr hyn yr ydym yn ei wneud ac i dderbyn barn.

Yn ystod 2018/19 fe wnaeth 5,960 o bobl Gwynedd ymateb i holl ymgynghoriadau cyhoeddus corfforaethol y Cyngor megis yr Holiadur Chwaraeon Anabledd, Ymgynghoriad Tai Cymdeithasol, Strategaeth Toiledau Cyhoeddus neu'r Ymgynghoriad Bysiau Lleol Gwynedd. Rhoddwyd sylw penodol i sicrhau fod y Cyngor yn clywed llais carfannau penodol megis pobl ifanc, y gymuned LGBT+,

lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid ac oedolion gydag anableddau dysgu. Rydym wedi parhau i drafod wyneb yn wyneb â thrigolion gyda chymorth grwpiau megis ein Panel Trigolion neu'r Grŵp Cydraddoldeb, ond rydym hefyd yn symud yn gynyddol i gyfathrebu a chasglu barn drwy ddulliau electronig.



Mae defnydd o'n cyfryngau cymdeithasol wedi tyfu 9% dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda dros 25,000 o ddilynwyr bellach i gyfrifon Facebook a Trydar y Cyngor. Mae'r dulliau yma yn gynyddol boblogaidd gyda'n trigolion ifanc wrth gwrs. Mae'r defnydd o'r gwasanaethau hunanwasanaeth ar ein gwefan wedi cynyddu yn ogystal, gyda 9,129 o gyfrifon hunanwasanaeth newydd wedi eu hagor yn ystod 2018/19. Ein gobaith yw bod y dull hwn yn agor gwasanaethau allan i rai o'n trigolion sydd ddim yn ei chael yn hawdd i alw draw neu ffonio Siopau Gwynedd.

3. Hyrwyddo a Gwella Llesiant y rhai yr ydym yn eu helpu

Fel yr amlinellwyd ym mhennod un uchod, bydd y chwe safon ansawdd sydd yn cael eu nodi gan y Llywodraeth yn cael eu defnyddio yma i amlinellu'r hyn y bwriadwyd ei wneud, beth ddigwyddodd a pha wahaniaeth a welsom. Yn ogystal, ar gyfer pob safon, byddwn yn rhoi braslun o'r hyn y bwriedir ei wneud yn 2019/20.

Safon Ansawdd 01

Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y maent am eu cyflawni

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:


- sicrhau mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth clir, dealladwy i gefnogi pobl i gynnal eu lles a gwneud penderfyniadau gwybodus
- gweithio gydag unigolion, eu gofalgwyr a sefydliadau sy'n bartneriaid, i gefnogi a chynnal annibyniaeth unigolyn heb yr angen am ofal a chymorth
- cwblhau asesiadau lles mewn modd amserol
- sicrhau bod penderfyniadau'n parchu amgylchiadau unigol ar draws yr ystod gyfan o anghenion a'u bod yn rhoi sylw priodol i gonfensiynau ac egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer plant, pobl hŷn a phobl anabl
- sicrhau bod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch
- galluogi pobl i gael rheolaeth dros gynllunio a darparu gofal
- hyrwyddo ffyrdd o fyw iach a'u cefnogi
- galluogi mynediad i wasanaethau a gweithgareddau sy'n cynnal iechyd meddwl a lles emosiynol
- annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, i fod yn actif ac elwa o ofal a chymorth ataliol rhagweithiol
- trefnu eiriolaeth annibynnol lle bo angen neu gyfeirio at fathau eraill o eiriolaeth i alluogi pobl i oresgyn rhwystrau i gyfranogiad wrth adolygu a diwallu anghenion
- trefnu enwau cyswllt a rhannu gwybodaeth berthnasol gyda phartneriaid er mwyn caniatáu trosglwyddo gofal a chymorth yn llyfn ar draws y gwasanaethau
- hwyluso cynlluniau gofal a chymorth amlddisgyblaethol
- rhoi trefniadau ar waith ar gyfer asesu anghenion a phenderfynu ar gymhwysedd
- egluro heriau yn ogystal â chyflawniadau
- mesur effaith y gofal a'r cymorth, a chymorth i ofalgwyr ar fywydau pobl a'u canlyniadau lles
- sicrhau bod pobl yn ymwybodol o dalu am ofal a threfniadau codi tâl

Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn Safon Un

Mae Cynllun Iechyd a Gofal Llywodraeth Cymru 'Cymru Iachach' yn gosod cyfeiriad clir i ddatblygu modelau gofal newydd sy'n canolbwyntio'r gwasanaethau o amgylch yr unigolyn a'u teulu, mor agos at eu cartref a phosibl. Mae'n pwysleisio'r angen i wasanaethau fod yn ataliol, yn hawdd eu defnyddio ac yn uchel eu hansawdd. Mae'n werth nodi bod 'Cymru Iachach' yn dilyn yr union drywydd yr ydym arno yn barod yng Ngwynedd ers rhai blynedd, ac rydym ar flaen y gad yn hynny o beth o ran ein gweledigaeth a'r cynlluniau trawsffurfio yr ydym yn gweithio arnynt.

Y weledigaeth yng Ngogledd Cymru yw bod ein gwasanaethau yn y gymuned yn cael eu trawsnewid er mwyn i gymorth a chefnogaeth gynnar i bobl gael eu darparu yn eu cartrefi eu hunain. Trwy'r dull hwn dylem weld gwell canlyniadau i unigolion a bydd y galw am dderbyniadau i'r ysbyty a darpariaeth gofal yn lleihau dros amser. Rydym yn disgwyl, dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, i symud o ddarparu gofal a thriniaeth yn yr ysbyty i sefyllfa ble mae bosib cynnig ymyraethau iechyd a chefnogaeth o fewn y gymuned.

Rydym yn gweld mai'r sylfaen gadarn sydd ei hangen er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon yw gwella'r clystyrau Meddygon Teulu a threfniadau gofal cymdeithasol a symud tuag at gryfhau'r ardaloedd lleol/timau adnodd cymunedol a gofal cymdeithasol. Bydd y timau yma'n gweithio'n ddi-dor i ddarparu gwybodaeth, cyngor, gofal a chymorth yn seiliedig ar 'beth sy'n bwysig' i unigolion. Bydd y lleoliadau hyn, pan fyddant wedi'u datblygu'n llawn, yn gweithio'n lleol o fewn egwyddorion dylunio rhanbarthol.



Mae ein prosiect lleol o ail Ddylunio Gwasanaethau Gofal eisoes yn ceisio sicrhau ein bod yn gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd a gofal drwy dreialu ffordd newydd ac arloesol o weithio.

Rydym wedi bod yn cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod gan oedolion sy'n byw yng Ngwynedd fynediad syml ac uniongyrchol i'n timau lleol. I'r perwyl hwn rydym, ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, wedi sefydlu 5 Tîm Ardal Lleol sydd â'r bwriad o ddarparu gwasanaeth di-dor. Mae'r timau yma yn adeiladu ar gryfderau'r unigolyn a'r gymuned ac yn sicrhau bod ein trefniadau gadael yr ysbyty yn effeithiol ac yn cyd-fynd â beth sy'n bwysig i'r unigolyn hwnnw. Mae gweithredu o fewn ardaloedd llai hefyd yn golygu ei bod yn haws i'r staff gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd o fewn cymunedau lleol, a fydd yn ei dro yn gwella profiad unigolion.

Mae gwaith yn digwydd yn ogystal i wella profiad pobl wrth drosglwyddo o'r ysbytai yn ôl i'r gymuned. Ein gweledigaeth i'r dyfodol yw cryfhau ein timau cymunedol er mwyn gwella ein gallu i ymateb a rhoi cefnogaeth wrth i bobl drosglwyddo o'r ysbyty i'r gymuned. Mae datblygiad y timau adnoddau cymunedol (TAC) a datblygu cynlluniau gofal cartref yn ardal Tywyn a Bethesda wedi cyfrannu at wella profiad pobl wrth drosglwyddo o'r ysbytai. Mae canlyniadau'r arbrawf yma wedi bod yn hynod gadarnhaol a byddwn yn symud ymlaen i ail gomisiynu gan ddefnyddio'r ffordd newydd. Yn ogystal â hyn, ar Ward Ogwen yn Ysbyty Gwynedd rydym wedi bod yn ceisio gwella'r system trosglwyddo cleifion, ac er yn ddyddiau cynnar mae'r gwaith yn dangos arwyddion cadarnhaol iawn.

Adroddais flwyddyn ddiwethaf ein bod yn ymwybodol bod rhai o'n trigolion yng Ngwynedd yn gorfod teithio'n bell os am gael rhai gwasanaethau gofal dementia. Mewn ymateb i hyn mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu datblygu darpariaeth dementia arbenigol o fewn cartrefi gofal o dan ofalaeth y Cyngor mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. Mae rhywfaint o drafferthion wedi codi o ran recriwtio staff arbenigol gan y Bwrdd Iechyd i


fanteisio'n llawn ar y datblygiadau hyn, ond y bwriad yw ceisio recriwtio yn fuan.

Roedd buddsoddiad sylweddol ar bedwar o unedau dementia newydd sydd wedi'u lleoli yng nghymunedau ar draws Gwynedd wedi derbyn sêl bendith y Cabinet yn ystod y flwyddyn. Bu i'r Cyngor gytuno i glustnodi ffigwr blynyddol o £808,000 i staffio pedwar o unedau arbenigol dementia newydd sydd wedi ei lleoli o fewn cartrefi preswyl yr awdurdod. Mae'r gwaith adeiladu eisoes wedi'i gwblhau i ddatblygu'r unedau arbenigol yn Llys Cadfan yn Nhywyn, Plas Hafan yn Nefyn a Phlas Hedd ym Mangor diolch i gyllid Gronfa ICF (Gofal Integredig) Llywodraeth Cymru. Mae disgwyl y bydd yr uned yng Nghartref Bryn Blodau yn Llan Ffestiniog yn cael ei chwblhau erbyn diwedd haf 2019.

Mae'r unedau dementia arbenigol yma yn rhan o ymdrechion ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i sicrhau bod pobl hŷn yn cael mynediad i ofal arbenigol a'r gwasanaethau iechyd y maent eu hangen a hynny o fewn eu cymunedau.

Tra bod cydweithio gyda phartneriaid yn uchel iawn ar ein agenda, mae'n bwysig ein bod yn cofio mai ein prif bartner wrth foderneiddio ein darpariaeth gofal ydi'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rwyf, felly, yn hynod falch fod y gwasanaethau sy'n cael eu cyflwyno ym Mhlas Hafan, ynghyd ag ardaloedd eraill o'r sir, yn ymateb yn glir i'r hyn y mae pobl leol wedi'i ddweud wrthym y maent am ei weld.

Un o ofynion y Ddeddf yw sicrhau ein bod yn rhoi **gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth** i bobl mewn ffordd syml a hygyrch. I'r perwyl hwn rydym wedi ymgorffori'r gwasanaeth hwn o fewn y pum tîm oedolion. Bydd hyn yn golygu trefniadau syml i drigolion Gwynedd gan hefyd sicrhau bod unigolion yn parhau i gadw rheolaeth wrth ganfod gwybodaeth am yr hyn y maent ei angen.



Mae'r Cynllun Cysylltwyr Cymunedol wedi ei sefydlu ac wedi lleoli unigolion a noddir gan asiantaeth trydydd sector oddi mewn i 3 o'r TAC. Maent yn mapio gwasanaethau a grwpiau sydd yn bodoli o fewn cymunedau gan gysylltu unigolion sydd angen cymorth gyda'r gwasanaethau hynny, ynghyd ag adnabod bylchau yn y gwasanaeth a hybu mentrau cymunedol.

Yn ardal Llŷn aethpwyd ati i greu partneriaeth leol sydd yn canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau llesiant a sicrhau cydweithio effeithiol ar draws sawl ffin. Mae'r asiantaeth drafnidiaeth gymunedol "O Ddrws i Ddrws" wedi bod yn greiddiol i'w ddatblygiad yn ogystal â phrosiect sydd wedi ei ariannu drwy'r Loteri Fawr o'r enw "Be Wnawn ni Heddiw". Mae'r Cysylltwr Cymunedol lleol yn gweinyddu'r cyfarfodydd a elwir yn "Cydweithio er Lles Llŷn" ac mae'n dod a rhanddeiliaid a phencampwyr cymunedol mor eang â'r ficer sy'n rhedeg y Banc Bwyd i'r heddwas cymunedol at ei gilydd.

I'r dyfodol bydd yr Adran yn sicrhau fod Cysylltydd Cymunedol yn rhan o'r 5 TAC i'r dyfodol a'u bod yn pontio holl wasanaethau oedolion yn hytrach na dim ond pobl hŷn. Mae bwriad felly i ddatblygu partneriaethau tebyg i Lles Llŷn ar draws Gwynedd.

Yn yr un modd, mae'r gwasanaethau Cefnogi Plant a Theuluoedd hefyd wedi bod yn datblygu eu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth dros y flwyddyn. Mae'r Adran yn raddol wedi datblygu eu gwasanaeth ac wedi adeiladu ar y syniad o gael 'un drws ffrynt' sef **'Hwb Teulu Gwynedd'**. Drwy arian ICF (Cronfa Gofal Integredig) Llywodraeth Cymru mae'r Adran wedi llwyddo i ddenu 3 Cysylltwr Cymunedol i'r Hwb er mwyn galluogi'r Hwb i roi gwybodaeth gyfredol am wasanaethau sydd ar gael yn lleol i unigolion. Mae swyddog gwybodaeth yn ogystal â swyddogion derbyn cyfeiriad Tîm o Amgylch y Teulu a'r tîm statudol yn rhan o'r Hwb yma. Edrychaf ymlaen at gael adrodd ar fuddiant yr hwb yma i deuluoedd Gwynedd i'r dyfodol.

Mae'r Cyngor a phartneriaid eraill yn cydnabod bod angen parhau i gryfhau gallu unigolion i aros yn iach cyhyd ag y bo modd, a bod gwydnwch cymunedol yn rhan allweddol o wireddu hyn. Felly, un o brif flaenoriaethau gwella ar gyfer y pum mlynedd nesaf yw gweithio gyda chymunedau i geisio sicrhau eu gwydnwch fel y gall unigolion barhau i fyw'n annibynnol o fewn eu cymunedau yn unol â'u dymuniadau. Rhan allweddol o hyn yw cyfraniad gwasanaethau ataliol o fewn ein cymunedau, cyfraniad gwerthfawr y trydydd sector ac, wrth gwrs, cyfraniad enfawr gofalwyr teuluol a chyfeillion.

Safon Ansawdd 02

Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol pobl

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- hyrwyddo a chefnogi ffyrdd o fyw iach
- cefnogi gwasanaethau mynediad i gynnal iechyd meddwl a lles emosiynol
- annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u lles, bod yn actif ac elwa o ofal a chymorth ataliol rhagweithiol

Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn Safon Ansawdd Dau

Y llynedd, adroddais ar y rhaglen gyffrous oedd yn ei lle i sicrhau darpariaeth **anableddau dysgu** gynaliadwy i oedolion ar gyfer y dyfodol. Rwyf yn hynod falch o adrodd bod y Gwasanaeth Anableddau Dysgu wedi gwneud cynnydd sylweddol i foderneiddio'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ac wedi datblygu gweledigaeth glir, ar y cyd gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd a phartneriaid allweddol. Mae ein gweledigaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau ataliol ar draws y Sir, fydd yn canolbwyntio ar anghenion oedolion sydd ar y sbectwm awtistiaeth. Mae gwaith hefyd wedi ei gynnal ar lefel ranbarthol i ddatblygu gwasanaeth awtistiaeth gydol oes.

Mae'r maes Anableddau Dysgu yn datblygu ac yn aeddfedu. Mae llawer wedi digwydd o fewn y maes gydag amryw o gynlluniau ar waith, gan gynnwys datblygu hybiau cymunedol. Cegin Arfon yw'r cyntaf o'r datblygiadau yma gan gynnig cyfleoedd profiad gwaith a hyfforddiant i oedolion ag anableddau dysgu gyda'r nod o ddatblygu sgiliau.

Prif bwrpas y caffi ydi codi hyder yr unigolion a datblygu eu sgiliau gyda'r bwriad iddynt symud ymlaen i gael swyddi yn y dyfodol. Mae hefyd yn amlwg yn rhoi'r cyfle iddynt gymdeithasu. Mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i ddenu arian Grant Ewropeaidd drwy Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu dau hwb arall - un ar safle'r Gwystl, Y Ffôr, ac un arall ar safle Brynffynnon, Y Felinheli.

Bu i'r rhanbarth yn ogystal ddatblygu Strategaeth Ranbarthol i drawsnewid gofal i bobl ag anableddau dysgu. Mae'r prosiect ar draws y Gogledd yn mynd ati i ddatblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor. Mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiannus i ddenu £100m o gyllid oddi wrth gronfa Llywodraeth Cymru. Nod y prosiect hwn ydy sicrhau mwy o integreiddio rhwng gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu er mwyn eu helpu i fyw'n fwy annibynnol. Y gobaith wedyn fydd cyflwyno'r holl syniadau hyn ym mhob rhan o Gymru er mwyn gwella gwasanaethau i bobl a lleihau'r pwysau ar rannau o'r Gwasanaeth Iechyd a'n

gwasanaethau cymdeithasol.

Fel yr addewais, **mae'r maes iechyd meddwl** wedi derbyn sylw yn ystod y flwyddyn a bydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth dros y blynyddoedd nesaf er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion unigolion.

Er mwyn darparu gwasanaeth iechyd meddwl, rydym yn gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd gan weithio'n amlasiantaethol, ac rydym hefyd yn gweithredu yn unol â Deddf Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Mae gwaith wedi mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn i weithredu'r strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' ar y cyd â'n partneriaid allweddol. Mae cynnydd da iawn wedi'i wneud, gyda Gwynedd yn bartner llawn yn y trafodaethau i drawsnewid gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer y dyfodol, er mwyn sicrhau gwell mynediad at wasanaethau ataliol a mwy o bwyslais ar lesiant meddyliol ar gyfer pobl o bob oed.


Yn ystod y flwyddyn rydym wedi datblygu'r Bartneriaeth Dysgu Iechyd Meddwl Gwynedd ar y cyd gyda'r Uned Llesiant, Opus, Unllais a Rheolwr Iechyd Meddwl Gwynedd, er mwyn hyrwyddo cydweithio a rhoi sylw i'r angen am waith ataliol yn y maes Iechyd Meddwl. I'r perwyl hwn bu i'r Bartneriaeth ddatblygu llyfryn sy'n cynnig syniadau am sut i fynd ati i edrych ar ôl iechyd a lles, ac wedi ei lansio mewn digwyddiad diweddar ym Mhorthmadog. Bwriad y llyfryn 'Edrych ar ôl fy hun' ydi cyflwyno gwybodaeth am beth sydd ar gael o fewn cymunedau Gwynedd. Mae amrywiaeth o wasanaethau gwahanol a gellir eu cyrraedd drwy ddilyn y 'pum ffordd at les' sydd wedi ei ddatblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ein bwriad yw annog pobl i feddwl am ffyrdd o edrych ar ôl eu hunain.

Mae cynnydd eleni yn nifer y **plant sy'n derbyn gofal** o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Bellach, mae 253 o blant yn derbyn gofal (diwedd mis Mawrth 2019) sy'n gynnydd o 11% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'n werth nodi bod hyn yn batrwm a welir yn genedlaethol ac mae gwaith ymchwil yn cael ei gynnal yn genedlaethol ar hyn o bryd i edrych yn fanylach i mewn i'r rhesymau am hyn. Mae'n faes cymhleth ac nid oes ateb hawdd iawn i'r sefyllfa. Mae plant fel arfer yn dod i'n gofal o dan amgylchiadau anodd iawn. Beth sydd yn galonogol i'w nodi yw bod Arolygaeth Gofal Cymru (AGC / CIW) wedi datgan yn eu hadroddiad arolygaeth o'r Cyngor bod ein trefniadau Diogelu yn gadarn ac nid oes yr un plentyn wedi dod i mewn i'n gofal yn ddiangen.

Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol yn parhau i edrych ar faterion penodol o fewn y maes Plant Mewn Gofal sef: Cadw'n Ddiogel, Addysg, Iechyd a Lles, Gwneud Cyfraniad Cadarnhaol, a Throi yn Oedolyn. Mae Cynghorwyr a swyddogion ar draws y Cyngor, yn ogystal â swyddogion o'r Bwrdd Iechyd, yn aelodau o'r Panel, ac maent yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n mynd yn dda a'r hyn y gallwn ddylanwadu arno er mwyn gwella canlyniadau i'r plant sydd yn ein gofal. Bellach mae aelodaeth y Panel yn cynnwys rhiant maeth a phlentyn mewn gofal. Mae gwneud 'Beth sy'n bwysig' i'r unigolion hyn wrth wraidd y gwaith ac rwyf yn falch iawn bod plentyn sy'n ein gofal bellach yn aelod o'r Panel Rhiant Corfforaethol hefyd. Mae gennyf peth pryder o ran materion Addysg/Ysgolion ac Iechyd o fewn y garfan yma o blant. Mae ein mesurau perfformiad yn parhau i ddangos dirywiad yn y meysydd hyn ac rwyf wedi gofyn i'r swyddogion perthnasol edrych yn fanylach i'r materion hyn. Mae manylion am ein mesurau perfformiad i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Mae'r Cyngor eisoes wedi adnabod yr angen i ganolbwyntio fwy ar **gefnogi pobl**, gyda phwyslais cryf ar waith ataliol a gweithio'n integredig gyda phartneriaid allweddol. Mae'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Cefnogi Teulu a chyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru i uno eu grantiau ataliol wedi rhoi cyfle i ni adlewyrchu ar ein cyfeiriad. Fel Cyngor

Roedd 253 o blant mewn gofal diwedd Mawrth 18/19 o'i gymharu â 227 diwedd Ebrill 17/18



rydym yn awyddus i edrych yn ehangach ar y maes ataliol a'r gefnogaeth yr ydym yn ei ddarparu ar draws ein holl wasanaethau i drigolion Gwynedd, gan geisio mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu.

Mae angen mwy o gefnogaeth ar rai trigolion ac mae'r Cyngor yn buddsoddi, darparu a chynllunio nifer o wasanaethau ac ymyraethau sy'n mynd i'r afael â chefnogi pobl gyda sialensiau amrywiol megis:

- anawsterau riantu a magu teulu
- cael a chynnal cartref
- cynnal perthnasau iach
- delio gyda cham-ddefnyddio sylweddau ac alcohol
- trais
- troseddu ac effeithiau hynny
- byw'n iach ac actif
- incwm annigonol a diffyg gwaith
- methu aros mewn addysg, diffyg cymwysterau a sgiliau sylfaenol
- gofalu
- heneiddio
- unigrwydd a diffyg cysylltiadau cymdeithasol.

Felly dros y blynyddoedd nesaf mae'n fwrriad gennym i edrych yn wrthrychol ar sut yr ydym yn cefnogi pobl, gan wrth gwrs wneud hyn drwy edrych ar ein systemau drwy eu llygaid hwy. Byddwn felly yn trafod ein gweledigaeth gyda'n partneriaid, fel y gallwn gytuno ar y cyfeiriad, sgôp a rhaglen waith. Y bwriad yw ein bod yn gallu rhoi sicrwydd ein bod ni'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd gennym i ddiwallu anghenion yn gynnar, a chyd-gynllunio gwasanaethu ac ymyraethau priodol. Drwy wneud hyn gallwn hefyd fod yn hyderus bod gennym drefniadau sydd yn effeithiol

ac effeithlon.

Y bwriad yw gwneud hyn mewn ffordd ddidor sy'n cryfhau swyddogaeth a chyfraniad partneriaid i wella deilliannau plant a phobl o bob oed. Y nod yn y pen draw fydd cyfuno'r holl sgiliau, adnoddau ac ymrwymiad pob gweithiwr proffesiynol ar draws adrannau a sectorau mewn ffordd gydlynol i gyflawni canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc, oedolion a theuluoedd yng Ngwynedd. Mae hon yn raglen arloesol ac uchelgeisiol iawn sy'n golygu newid enfawr yn y ffordd yr ydym yn gweithio ond mae 'Cymru Iachach' yn cynnig cadarnhad ein bod ar y trywydd cywir.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i mi oedd agoriad swyddogol yr Uned Egwyl Fer, Hafan y Sêr. Mae'r uned breswyl newydd yn cynnig darpariaeth egwyl fer i hyd at chwech o blant ar y tro o Wynedd ac Ynys Môn sydd â gwahanol anableddau. Mae'n cynnig llety oddi cartref i blant ag anableddau amrywiol mewn adeilad pwrpasol a chartrefol. Mae Hafan y Sêr yn cael ei redeg gan Wasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd y Cyngor, gan weithio'n agos â Chyngor Môn. Mae'r adeilad yn cynnwys ystafelloedd modern, lle cyn hamdden agored, offer synhwyraidd, cyfleusterau cyfrifiadurol a gardd amgaeedig. Mae'r ymateb gan deuluoedd sydd eisoes wedi gwneud defnydd o Hafan y Sêr wedi bod yn hynod gadarnhaol, gydag amryw o rieni yn nodi fod y ddarpariaeth wedi trawsnewid eu bywydau. Dyma oedd gan un teulu i'w ddweud:

“

Mae Hafan y Sêr fel gwersyll gwyliau i'n plant ni - mae nhw'n edrych ymlaen am wythnosau i gael mynd! Mae profiad o gael aros gyda ffrindiau mewn awyrgylch ofalgar a chartrefol yn braf iawn iddynt, ac yn anodd ei gael o dan amgylchiadau cyffredin.

”




Bu i Gwasanaeth Integredig Awtistiaeth Gogledd Cymru gael ei lansio ym mis Mehefin 2018. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £13m hyd at 2021 i ddatblygu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ledled Cymru. Mae hyn oherwydd bod llawer o unigolion awtistig yn disgyn rhwng meini prawf ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu ac felly ni allant gael mynediad i gymorth emosiynol, ymddygiadol, iechyd meddwl isel na sgiliau bywyd.

Yng Ngogledd Cymru, mae'r gwasanaeth yn cael ei ddatblygu ar draws y chwech awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Bydd yr Gwasanaeth Integredig Awtistiaeth (GAI) yn darparu gwasanaethau diagnostig oedolion newydd; cefnogaeth

gydol oes i unigolion awtistig (plant ac oedolion) eu teuluoedd a'u gofalwyr; cefnogaeth gyda throsglwyddo o ddarpariaeth plant i oedolion a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol. Bydd Cyngor Gwynedd yn cydweithio gyda'r GAI a bydd Gweithwyr Cefnogol penodol ar gyfer Gwynedd o fewn y gwasanaeth.

Mae **oediad wrth drosglwyddo o ysbytai** wedi derbyn sylw gan y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn. Rydym yn gweithio i sicrhau bod pobl Gwynedd yn gallu gadael yr ysbyty cyn gynted ag y byddant yn barod i wneud hynny. Rydym wedi bod yn craffu'n fanwl iawn ar y rhesymau dros oedi yn ystod y flwyddyn ac rydym ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd yn gweithio ar wella'r llif drwy'r system ofal ac

iechyd, a hynny drwy ddilyn achosion o'r dechrau i'r diwedd a cheisio dileu'r rhwystrau sy'n codi. Yn galonogol gwelwyd gwelliant yng nghyfradd oedi wrth drosglwyddo o ysbytai am resymau gofal cymdeithasol yn ystod chwarter olaf y flwyddyn.



Yr her fydd i ni barhau gyda'r gwelliant yma gan fod y perfformiad yn adlewyrchu problemau cyffredinol sydd yn y system iechyd a gofal o ran galw uchel ar yr ysbytai, diffyg gwlâu nyrsio yn y gymuned a hefyd prinder capasiti o ran gweithwyr proffesiynol a gofalwyr cartref mewn rhai ardaloedd penodol o Wynedd. Er bod y mesurydd hyn yn cael ei adrodd yn genedlaethol ac o ddiddordeb mawr i'r Llywodraeth, rydym yn edrych ar hwn fel un mesur o system gyfan. Rydym yn glir ein bod angen edrych ar y darlun cyfan o ran ein gwelliannau, gan sicrhau bod y gefnogaeth ac ymyraethau priodol yn bodoli o fewn y gymuned. Rhan o'r darlun wrth gwrs ydi argaeledd a chapasiti y ddarpariaeth gofal cartref.

Mae diffyg darpariaeth gofal cartref yn parhau yn broblem ym mhob rhan o Wynedd, a gwyddom fod staff gofal cartref yn gwbl hanfodol ar gyfer cefnogi pobl i allu aros gartref gyn hired ag y maent yn dymuno. Rydym wedi bod yn arbrofi gyda ffyrdd newydd o ddarparu y gefnogaeth yma. Mae canfyddiadau cychwynnol y gwaith arbrofi wedi ennyn diddordeb dylunwyr polisïau lleol a rhanbarthol megis Gofal Cymdeithasol Cymru ac

Arolygaeth Gofal Cymru. Rydym yn ystod y flwyddyn wedi adeiladu ar yr hyn a ddysgom o'r arbrawf a defnyddio'r wybodaeth fel sail i lunio gwasanaeth amgen ar gyfer y dyfodol. Rhagwelwn y bydd y gwaith trawsnewid gofal cartref heb os yn arwain at wella statws a delwedd swyddi gofalwyr cartref i'r dyfodol. Mae'r newid yn golygu ymddiried mewn staff rheng flaen gan hefyd sicrhau bod gofalwyr cartref yn dod yn rhan o dîm ehangach o weithwyr proffesiynol. Nodir bod cyfathrebu a marchnata yn treiddio trwy'r holl ffrydiau gwaith wrth gwrs ac yn gwbl allweddol i lwyddiant ymdrechion y Cyngor i recriwtio a chadw staff profiadol i'r dyfodol.

Safon Ansawdd 03

Diogelu ac amddiffyn pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- Ymateb yn effeithiol i amgylchiadau sy'n newid ac adolygu cyflawniadau canlyniadau lles unigolion yn rheolaidd
- Rheoli risg mewn ffordd sy'n grymuso pobl i deimlo mewn rheolaeth sy'n gyson ag anghenion diogelu
- Darparu gofal a chefnogaeth i gwrdd ag anghenion a aseswyd i amddiffyn pobl rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu niwed arall
- Gweithio mewn partneriaeth i ymchwilio i honiadau o gamdriniaeth neu esgeulustod er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed
- Datblygu trefniadau amddiffynnol ar gyfer y rhai sy'n rhoi eu diogelwch eu hunain mewn perygl i atal camdriniaeth ac esgeulustod.
- Eiriolaeth mewn perthynas â diogelu

Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn Safon Ansawdd Tri

Bu i ni groesawu adroddiad sydd wedi ei gyhoeddi gan Arolygaeth Gofal Cymru (AGC) sy'n cadarnhau fod gan wasanaethau plant yr awdurdod 'gryfderau sylweddol'. Mae'r adroddiad, sy'n dilyn arolygiad manwl a gyflawnwyd gan yr AGC ym mis Mai 2018, yn dweud fod gan Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd Cyngor Gwynedd weithlu 'ymroddedig a sefydlog'. Noda'r adroddiad fod yna 'Arweinyddiaeth gref' a bod 'Bwrdd Rhiantu Corfforaethol yn awyddus i sicrhau canlyniadau da i blant sy'n derbyn gofal ac yn cael cymorth da gan bob rhan o'r Cyngor'. Mae'r adroddiad yma yn cadarnhau a sicrhau bod diogelwch a lles plant a phobl ifanc mwyaf bregus Gwynedd wrth wraidd popeth yr ydym yn ei wneud.

Rydym yn cydnabod bod lle i ddatblygu'n barhaus, ac rydym eisoes yn cymryd camau i ymateb i'r meysydd a amlinellwyd gan yr arolygwyr fel meysydd gwella.

Mae gwella profiad plant a theuluoedd sydd yn mynd drwy'r drefn Ddiogelu yn rhywbeth sydd yn derbyn sylw gan yr Adran, gyda llai o bwyslais yn cael ei roi ar yr amserlen sydd yn cael ei gosod, ond yn hytrach ar ansawdd y cyswllt mae'r plant a phobl ifanc yn ei gael gyda'n swyddogion. Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi cael ei amlygu gan yr Arolygaeth ac mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol (IROs) yn edrych ar y sut mae modd gwella a datblygu ymarfer.



Yn ystod 2018/19, canran y cynadleddau achos lle clywyd llais/barn y plentyn (ac eithrio plant dan 7 mlwydd oed) oedd 99%.

Mae ein Swyddogion Adolygu Annibynnol yn rhoi eu barn am ansawdd lleoliadau plant yn ogystal â gwaith cymdeithasol. Rydym angen sicrhau ein bod yn cynnwys barn y plentyn, ble gallwn, wrth wneud penderfyniadau wrth gynllunio ar eu cyfer. Mae sicrhau ein bod yn gwrando ar lais y plentyn, ac yn ei glywed ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, yn hynod bwysig. Yn ystod 2018/19, canran y cynadleddau achos lle clywyd llais/barn y plentyn (ac eithrio plant dan 7 mlwydd oed) oedd 99%. Mae'r perfformiad yma wedi gwella o'i gymharu â'r ddwy flynedd ddiwethaf, sy'n dangos ein bod yn gweithredu mewn dull sy'n seiliedig ar hawliau plant.

Ar ddiwedd Mawrth 2019 roedd 253 o blant yng ngofal y Cyngor. Mae hyn yn gynnydd o 11% ar y nifer oedd mewn gofal ddiwedd Mawrth 2018.

Ar ddiwedd Mawrth 2019 roedd:

- 65% o blant mewn gofal wedi eu gosod mewn lleoliad maeth.
- O'r rhain roedd 35% o'r gofalwyr maeth yn deulu neu'n ffrindiau.
- 23% o blant mewn gofal wedi eu lleoli gyda'u rhieni, felly yn parhau gartref.

Mae'r cynnydd yn y nifer o blant sy'n cael eu lleoli gan y llys gyda'u rhieni yn parhau, a thra fod hynny'n gadarnhaol o ran cadw teuluoedd gyda'i gilydd mae'n aml yn golygu bod angen ymyraethau a chefnogaeth ddwys iawn gan ein gweithwyr er mwyn sicrhau diogelwch a lles y plant.

Mewn ymateb i Gynllun Partneriaeth Llywodraeth Cymru '**Cymru Iachach**', mae lechyd a Gofal Rhanbarth y Gogledd wedi denu arian trawsffurfio ar gyfer 4 maes penodol, gyda'r maes Plant yn un o'r rhain. Un o'r materion y mae'r bid trawsffurfio yma yn ceisio mynd i'r afael ag o yw'r nifer cynyddol o blant a phobl ifanc sydd yn dod mewn i'r system ofal gydag anghenion cymhleth, a cheisio sicrhau bod ystod o ymatebion penodol yn cael eu datblygu. Mae'r bid trawsffurfio yn pwysleisio'r angen i ddatblygu gwasanaethau mwy integredig ar lefel fwy lleol, sydd yn canolbwyntio ar gynnig cymorth cynnar, adeiladu ar y ddarpariaeth trothwy gofal a chynnig cefnogaeth fwy dwys drwy dimau asesu a chymorth. Bydd y gwaith trawsffurfio yma yn sicr yn help i yrru ein gweledigaeth ymlaen.

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn denu grant i symud ymlaen gyda chynllun arloesol '**Diogelu Plant yn Effeithiol**'. Mae'r cynllun yn ceisio ymateb i anghenion ymarfer gweithwyr o fewn y maes heriol amddiffyn plant. Yn fras iawn, mae wedi cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau ein bod yn amddiffyn plant yn y ffordd mwyaf effeithiol posib, gan arwain at geisio sicrhau fod y newid sydd ei angen i sicrhau fod plant yn cael eu hamddiffyn yn cael ei gyflawni. Trwy sgysiau gwell sy'n ysgogi newid mae'n anelu at sicrhau fod gwasanaethau statudol diogelu yn gallu camu yn ôl yn ddiogel. Mae i'r prosiect elfennau o fesur, adolygu a gwerthuso. Os yw'n dangos llwyddiant y weledigaeth yw i'w lledaenu ar draws y rhanbarth fel model o ymarfer da. Mae mentor ymarfer wedi ei phenodi fydd yn arwain ar y gwaith o ddatblygu ymarfer gweithwyr unigol a thimau. Dylai'r gwaith hwn gryfhau ymarfer, sgysiau fwy effeithiol, penderfyniadau o safon a ffocws glir ar newid.

Yn benodol o ran plant, mae cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i gynadleddau achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau yn 99%, sy'n berfformiad cyson o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Mae'r adran **Oedolion** wedi rhoi trefniadau cadarn yn eu lle yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau arbenigedd a dealltwriaeth lawn o'r holl faterion sy'n ymwneud â diogelu. Mae'r uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd wedi ei sefydlu'n llawn ers Hydref 2017. Mae cynnydd cyffredinol wedi bod mewn achosion sy'n ymwneud â materion diogelu yn ddiweddar, ond mae'n amlwg o drafodaethau gydag awdurdodau eraill o fewn y rhanbarth ein bod mewn sefyllfa debyg iawn iddynt hwy. Mewn ymateb i'r cynnydd mewn cyfeiriadau Diogelu mae'r Uned wedi datblygu '**Hwb Diogelu**', ac i'r Hwb y bydd yr holl gyfeiriadau Diogelu Oedolion yn cael eu derbyn cyn cael eu dyrannu am ymyrraeth briodol.

Mae ein mesurau diogelu oedolion yn dangos perfformiad cadarn eto yn 2018/19. Gwelwyd eto eleni, o'r holl gyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, rydym wedi llwyddo i reoli'r perygl 91.5% o'r amser, gyda'r gweddill yn dewis peidio derbyn ymyrraeth.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Uned wedi parhau i fonitro ansawdd Cartrefi Gofal Gwynedd ac mae cryn amser wedi ei dreulio ar ymateb i achosion o bryderon am ansawdd. Bu 2 gartref o dan y drefn pryderon cynyddol yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd i fonitro gofal nyrsio a'n bwriad yw cynhyrchu adroddiadau ar y cyd i'r dyfodol.

Mae ymdrechion yn parhau i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei **ddyletswyddau corfforaethol o ran diogelu** ac i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu ar draws y Cyngor. Erbyn hyn mae polisïau a gweithdrefnau diogelu wedi eu mabwysiadu ar draws holl wasanaethau'r Cyngor ac mae llawer o waith codi ymwybyddiaeth a hyfforddi wedi'i wneud ar draws yr holl weithlu.

Mae Panel Diogelu Strategol y Cyngor wedi ehangu'i ffocws yn ystod y flwyddyn ac wedi ychwanegu'r agenda 'PREVENT/ATAL' at eu maes gwaith. Hon yw rhaglen y Swyddfa Gartref sy'n ymwneud â cheisio atal unigolion rhag cael eu radicaleiddio.

Mae agenda trais yn erbyn menywod a chaethwasiaeth fodern hefyd yn faterion sydd yn derbyn sylw gan y Panel. Mae materion megis troseddau sydd yn ymwneud â chyflenwad cyffuriau yng ngogledd Cymru wedi derbyn sylw hefyd ac rydym yn adnabod achosion o unigolion bregus o fewn ein meysydd gwaith sydd yn cael eu heffeithio gan y broblem gynyddol yma. Byddwn yn cydweithio yn agos gyda'r Heddlu a'n partneriaid allweddol i sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i wneud Gwynedd yn ardal ddiogel i'n holl drigolion.

Safon Ansawdd 04

Diogelu ac amddiffyn pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- Darparu cefnogaeth i bobl wneud y pethau sydd o bwys iddynt hwy
- Helpu pobl i ennill y sgiliau a'r cyrhaeddiad addysgol sydd angen arnynt i gymryd rhan yn y pethau sydd o bwys iddynt hwy
- Annog pobl i fod yn aelodau gweithredol o gymunedau a chefnogi'i gilydd i leihau ynysu cymdeithasol.

Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn Safon Ansawdd Pedwar

Mae'r **"Cynllun Dementia Go"** yn mynd o nerth i nerth ac yn gatalydd ar gyfer datblygu cymorth ataliol i bobl a'u gofalwyr sydd yn byw gyda dementia. Mae "Cynllun Dementia Go" wedi cynnal sesiynau ymarfer corff ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr ers 2015. Mae'r Cynllun yma wedi bod yn llwyddiannus dros ben trwy annog pobl sydd yn byw gyda dementia a'u gofalwyr i gadw'n actif, ac hefyd i gael cyfle i gymdeithasu. Mae 12 dosbarth bellach ar draws Gwynedd. Mae'r cynllun yn ogystal wedi ei ehangu a'i ddatblygu i gynnig profiadau i breswylwyr o fewn ein cartrefi gofal er mwyn iddynt gael y cyfle i fod mor actif â phosibl gan leihau'r risg o godymu, lleihau iselder a chynyddu ansawdd bywyd.



DemnetiaGo



Yn ystod y flwyddyn bu i'r Gwasanaeth Ieuenctid drosglwyddo o'r Adran Economi i'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Mae cael y cyfle i gymdeithasu, i gymryd rhan mewn gweithgareddau a pharhau i ddysgu a datblygu sgiliau newydd y tu allan i'r ysgol yn bwysig i bobl ifanc Gwynedd. Rydym wedi newid sut mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaeth ieuenctid yn ddiweddar. Pwrpas y Gwasanaeth Ieuenctid yw sicrhau mynediad at ystod o brofiadau dysgu anffurfiol i bobl ifanc (11-25 oed), sy'n rhoi'r cyfleoedd iddynt ennill sgiliau, mentro, mwynhau a chwarae rhan lawn yn eu cymunedau. Bellach mae'r strwythur staffio newydd yn ei le a recriwtio yn parhau, ac mae staff yn adrodd eu bod yn hapus iawn yn eu gwaith - "Dwi'n lyfio fy swydd". Mae'n galonogol iawn fod 1,107 o bobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth hyd yma (Mawrth 2019), drwy amryw o weithgareddau gan gynnwys gwaith ymgysylltu, gwirfoddoli yn eu cymuned, sgiliau coginio a chwaraeon. Mae ymateb da iawn wedi ei dderbyn gan bobl ifanc a rhieni:

“

Meddwl y byswm i'n rhoi adborth i chi ar ôl i'r mab fynychu sesiwn ym Mhenygroes nos lau dwyth - roedd o a'i ffrindiau wedi mwynhau eu hunain yn ofnadwy - yng ngeiriau'r mab pan ddaeth i mewn i'r car - "O Mam - oedd hwna'n class wan sdi!"

(e-bost gan riant).

”

O ran y plant sydd wedi gadael gofal mae 82% bellach mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant 12 mis ar ôl gadael gofal. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o'r 75% a adroddwyd y llynedd. Bydd cynlluniau megis Cynllun 'Ad Trac' yn gymorth i roi'r pwyslais angenrheidiol i sicrhau bod y plant sy'n gadael gofal yn cael eu hadnabod fel blaenoriaeth i dderbyn y gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i sicrhau addysg bellach, hyfforddiant neu waith. Mae'n rhaglen gyffrous fydd yn mynd rhagddi i gynorthwyo gyda chodi momentwm y gwaith sydd angen ei wneud gyda'r plant sydd yn ein gofal. Rydym yn

gweithredu argymhellion adroddiad y Comisiynydd Plant, 'Breuddwydion Cudd' er mwyn sicrhau bod plant sy'n gadael gofal yn derbyn yr un cyfleoedd, cefnogaeth a chymorth i ddarganfod eu ffordd yn y byd.

Mae 82% o blant sy'n gadael gofal bellach mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant 12 mis yn ddiweddarach.



Mae Gwynedd wedi bod yn rhan o raglen beilot i'r cynllun **'Pan fydda i'n barod'** ers 2013, ac ers mis Ebrill 2016 mae'n gyfrifoldeb statudol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru. Y nod yw medru cynnig sefydlogrwydd a pharhad i bobl ifanc fel nad ydynt yn symud allan o ofal cyn eu bod yn barod i wneud hynny. Yn ystod 2018-19, fe wnaeth 4 person ifanc adael y system gofal o dan y cynllun hwn. Yn yr un modd mae'r Adran Plant yn gweithio'n agos gyda'r Adran Tai o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau bod profiad canfod llety ar gyfer pobl ifanc sydd yn gadael gofal mor bositif a phosib. Mae rhai rhwystrau wedi eu hadnabod ac mae camau'n cael eu cymryd i ddileu y rhain.

Un o egwyddorion creiddiol Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau nad yw gweithrediadau heddiw yn niweidio ein dyfodol ninnau na'r cyfleoedd fydd ar gael i'n plant. Wrth gynllunio darpariaeth iechyd a gofal ar gyfer y dyfodol rhaid i ni felly ofalu bod yna seiliau cadarn yn eu lle i fedru cynnal y galw cynyddol fydd ar y gwasanaethau hynny. Er mwyn diogelu'r seiliau cadarn hynny mae'n rhaid i ni sicrhau bod pobl o bob oed a phob cymuned yn cael eu cynnwys yn gyfartal yn y drafodaeth ynghylch cynllunio gwasanaethau'r dyfodol. Mae sicrhau cymunedau gwydn yn rhan hanfodol o hyn. Mae ein rhaglen **'Cymunedau Gwydn'**, sydd o fewn Cynllun y Cyngor, yn canolbwyntio ar greu buddsoddiad mewn gwasanaethau ataliol newydd neu gyfredol o fewn canolfannau sylfaenol a chymunedol sy'n berthnasol i blant a phobl o

bob oed. Bydd y rhaglen yn cynnig cyfleoedd newydd mewn gwasanaethau ataliol ochr yn ochr â 'busnes fel arfer' yn y system bresennol. Mae'r Cyngor wedi cynnwys 'gwydnwch cymunedol' fel un o'i brif flaenoriaethau gwella ar gyfer y pum mlynedd nesaf, a bydd yn rhan bwysig o geisio sicrhau bod unigolion yn gallu aros ac i barhau i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau. Rhan allweddol o hyn yw swyddogaeth y trydydd sector a chyfraniad enfawr gofalmwr di-dâl.

Rydym yn parhau i ariannu prosiect peilot **'Cysylltwyr Cymunedol'** trwy gronfa ICF (Integrated Care Fund) o fewn ein timau cymunedol, ac mae'r swyddi'n mynd o nerth i nerth ac maent yn gwbl allweddol ar gyfer deall cryfderau ein cymunedau. Pwrpas y swyddi hyn yw cynyddu gallu timoedd i adnabod adnoddau ataliol, cymunedol er mwyn cefnogi oedolion bregus rhag datblygu problemau dwysach, yn ogystal â sbarduno gweithgarwch cymunedol sy'n hybu llesiant pobl. Mae Cysylltwyr Cymunedol yn cysylltu gweithiwr ein timoedd ardal gyda'r hyn sy'n mynd ymlaen ar lawr gwlad er mwyn cefnogi pobl o fewn eu cymunedau. Yn ystod y flwyddyn, mae Cysylltwyr wedi llwyddo i sefydlu rhwydweithiau llwyddiannus yn eu hardaloedd lleol, gan wneud mynediad at wasanaethau cymunedol yn haws i'w cydweithwyr ac maent hefyd wedi llwyddo i ddod â'r bylchau mewn gwasanaeth yn fwyfwy amlwg. O ganlyniad, mae rhai gweithgareddau wedi dechrau mewn rhai ardaloedd i geisio datblygu mwy o gydweithio e.e. sefydlu cyfarfodydd Cydweithio er Lles Llŷn, sydd wedi dod â'r sectorau at ei gilydd i rannu gwybodaeth am fentrau newydd ac i gynnal ymgynghoriadau. Hefyd, yn Arfon, rydym wedi edrych ar sut i gydweithio gyda mentrau cymdeithasol megis Menter Fachwen a Gisda i weld sut y gallwn weithio ar y cyd er mwyn gwasanaethu pobl sy'n gaeth i'w tŷ.

Cynllun arall sydd yn ymwneud â gwydnwch cymunedol yw **'Pontio'r Cenedlaethau'** ac mae hwn yn edrych ar wella sut mae cenedlaethau gwahanol yn cysylltu â'i gilydd. Allbwn hyn fydd ceisio atal unigrwydd drwy ddod a phawb at ei gilydd i wneud gweithgareddau hwyliog a diddorol. Yn ystod y flwyddyn mae'r Uned Llesiant wedi bod yn gweithio gyda Phennaeth

Safle Dolgellau, Grŵp Llandrillo Menai ar raglen beilot rhwng eu myfyrwyr a phobl hŷn. Cynhaliwyd un peilot llwyddiannus lle daeth unigolion oedd yn byw yn y gymuned i'r coleg, a pheilot arall yng nghartref preswyl Cefn Rodyn i weithio gyda'r myfyrwyr ar wahanol weithgareddau. I'r dyfodol, bydd hyn yn cael ei weu i fod yn rhan o gwricwlwm rhai cyrsiau a hefyd bydd y peilot yma yn cael ei ledaenu i safleoedd eraill y Coleg.

Mae'r Uned Celfyddydau Cymunedol hefyd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau celfyddydol ar hyd a lled Gwynedd, gyda rhai ohonynt wedi'u targedu'n benodol ar gyfer pobl hŷn. Ymhlith y prosiectau cafodd henoed Awel y Coleg, y Bala a henoed ardal Gellilydan y cyfle i fynychu sesiwn **Atgofion ar Gân** - prosiect sy'n mynd ati i leihau unigrwydd drwy'r celfyddydau. Cydweithiwyd â dwy ysgol gynradd a dengys yr ystadegau bod y cynllun wedi mynd i'r afael ag unigrwydd, gyda dros 90% yn nodi bod y cynllun wedi eu helpu i deimlo'n llai unig, ac wedi eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol eraill. Mae'r Cynllun nawr wedi'i ymestyn i ardaloedd Deiniolen a Bethesda, a bydd yn parhau yn 2019/20 hefyd.

Yn ogystal â hyn bu i elusen 'Spirit of 2012' gyhoeddi enwau tri phrosiect yn ystod y flwyddyn fydd yn derbyn cefnogaeth ariannol dros gyfnod o 3 mlynedd o ganlyniad i'w 'Music Challenge Fund' a bu un prosiect o Gymru yn eu plith. Dan arweiniad Canolfan Gerdd William Mathias ac mewn cydweithrediad â Thîm Anabledd Dysgu Cyngor Gwynedd, mae prosiect 'Canfod y Gân' yn dod a phobl ag anableddau a phobl heb anabledd ynghyd i greu cerddoriaeth mewn sesiynau rheolaidd yng Nghaernarfon, Pwllheli a Harlech. Mae hwn yn esiampl wych o hyrwyddo llesiant unigolion gydag anableddau dysgu trwy ddarparu cyfleoedd iddynt gyd-greu a chymdeithasu gyda chyfranogwyr eraill, cerddorion proffesiynol a gwirfoddolwyr.



Pontio'r Cenedlaethau - Plas Hafan, Nefyn



Safon Ansawdd 05

Darparu cefnogaeth i bobl er mwyn iddynt ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasau iach yn y cartref, gyda'u teulu ac ar lefel bersonol.

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- Darparu cefnogaeth i bobl gynnal perthnasau sydd o bwys iddynt, yn gyson ag anghenion diogelu
- Helpu pobl i gydnabod perthnasau anniogel ac i ddiogelu eu hunain rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Lle bo'n briodol, rhoi ystyriaeth i farn teuluoedd, gofalwyr a pherthnasau personol eraill wrth asesu anghenion gofal a chymorth

Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn Safon Ansawdd Pump

O fewn y maes gofalwyr, mae **Strategaeth Gofalwyr** Gogledd Cymru wedi ei fabwysiadu bellach sydd yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda gofalwyr o bob oedran. Mae'r Strategaeth wedi arwain at ddatblygu a chyd-gynhyrchu 'cynnig' i ofalwyr, sy'n cynnwys safonau gwasanaeth mae partneriaid yn ymrwymo i'w cyflawni. Byddwn yn mynd ati dros y misoedd nesaf gyda'r cynllun gweithredu i sicrhau ein bod yn ymrwymo yn llawn i'r safonau, gan adnabod y rhwystrau a sut y byddai'n bosib eu- datrys.

O ran yr **Holiadur Blynyddol** sydd yn mynd allan i Ofalwyr fel rhan o ofyn Llywodraeth Cymru, gwelwyd bod 53.8% o Ofalwyr Gwynedd wedi adrodd eu bod yn "gallu gwneud y pethau sy'n bwysig i mi", gyda 38.3% yn adrodd bod hyn yn digwydd weithiau, a'r gweddill yn dweud nad

oeddynt yn gallu gwneud y pethau oedd yn bwysig iddynt.

Mae hwn yn rhoi syniad i ni o farn gofalwyr a bydd hwn, a'r wybodaeth fwy manwl gan unigolion, yn ffordd i ni fesur llwyddiant ein datblygiadau yn y maes. Yn ogystal â hyn, byddwn yn mynd ati i ddatblygu mesurau pellach o fewn y maes gofalwyr erbyn y cylch nesaf o adrodd.

Mae ceisio **cefnogi teuluoedd** mor fuan ag y bo modd er mwyn osgoi problemau rhag dwysáu yn un o'n hamcanion. Sefydlwyd y Tîm Trothwy Gofal ar gyfer gweithio'n ddwys gyda phlant a'u teuluoedd pan mae sefyllfaoedd adref yn fregus. Wrth gydweithio gyda'r plant a'u teuluoedd mae anghenion ieuchyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol plant a'u teuluoedd

yn cael eu diwallu. Yn ystod 2018/19, roedd 67% o blant oedd yn gorffen gyda'r Tîm yn dangos lleihad yn y ffactorau a oedd yn amlwg cyn ymyrraeth, ac felly wedi osgoi gorfod dod â phlant i mewn i ofal mewn rhai achosion. Mae'r math yma o gefnogaeth yn amlwg yn cael effaith gadarnhaol iawn ar nifer o deuluoedd a hyderwn y gallwn barhau i ddatblygu'r ffordd yma o weithio ymhellach.

Mae hi'n ofyn statudol arnom i sefydlu gwasanaeth IFSS (Integrated Family Support Service) sydd yn cynnig ymyrraeth ddwys i deuluoedd sydd yn wynebu anawsterau camddefnyddio sylweddau a thrais yn y Cartref. Roedd y gwasanaeth yma yn cael ei gynnig ar y cyd â Chyngor Ynys Môn. Yn dilyn gwerthusiad lawn o'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn, roeddem o'r farn bod modd cael gwell canlyniadau i'r teuluoedd wrth ddarparu'r gwasanaeth o fewn timau gweithredol a'r Tîm Trothwy Gofal, gan osgoi dyblygu. Mae'r gwasanaeth o'r newydd wrthi'n cael ei ddatblygu gan gadw at yr egwyddorion a'r pwrpas gwreiddiol ond drwy integreiddio mewn ffordd llawer symlach gyda thimau rheng flaen. Byddwn yn monitro y sefyllfa er mwyn sicrhau ein bod yn gweld gwell canlyniadau.

Un o'r heriau mwyaf sydd yn ein wynebu fel Cyngor yw canfod **lleoliadau addas** i'r unigolion hynny sydd yn anodd iawn i'w lleoli oherwydd eu hanghenion cymhleth a dwys. Gan amlaf mae'r unigolion hyn yn blant yn eu arddegau. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi wynebu'r her ble mae lleoliadau yn torri i lawr ar fyr rybudd a mae ceisio canfod lleoliadau i'r plant hyn mewn cyfnod amser byr iawn yn anodd iawn. Ar rai adegau, bu'n anrheiddio lleoli plant mewn lleoliadau yn Lloegr, filltiroedd i ffwrdd o'u cymunedau a'u cysylltiadau teuluol. Nid yw'r sefyllfa yma yn ddelfrydol nac yn unigryw i Wynedd. Mae'r diffyg argaeledd o leoliadau preswyl, a'r gost gynyddol sydd ynghlwm iddynt, yn fater sydd yn derbyn sylw ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Bu i'r mater yn ddiweddar fod yn destun trafodaeth ym Mhwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cymru. Ar lefel ranbarthol, mae gwaith yn digwydd ar asesiad dichonolrwydd ranbarthol i edrych ar gael lleoliadau preswyl ar y cyd, neu i edrych ar opsiynau gyda darparwyr lleol ar gyfer plant a phobl ifanc Gogledd Cymru. Mae disgwyl i'r grŵp tasg adrodd yn ôl yn ystod y flwyddyn ar opsiynau posib. Serch hyn, ni fydd hyn yn ateb tymor byr i'r broblem nac yn dileu'r angen i ni leoli rhai plant mewn lleoliadau preswyl arbenigol i'r dyfodol, ond y bwriad yw y bydd yn gwella'r sefyllfa, ac yn cadw mwy o blant yn lleol.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid** wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaeth ar gyfer unigolion sydd yn ymddwyn neu yn arddangos ymddygiadau rhywiol niweidiol. Mae hwn yn wasanaeth newydd i ni ac y cyntaf o'i fath ar draws y ranbarth. Rydym wedi gweld cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf yn y math yma o achosion a'r bwriad yw ein bod yn gallu cynnig ymyrraeth mwy arbenigol yn seiliedig ar dystiolaeth i'r unigolion yma a'u teuluoedd.

Mae **Teuluoedd yn Gyntaf** yng Ngwynedd yn cynnig ymyrraeth i deuluoedd sydd â phlant sy'n wynebu anawsterau, yn enwedig i'r rhai sy'n profi problemau yn deillio o incwm isel a thlodi. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ymwneud â darparu gwahanol fathau o gefnogaeth i'r teulu cyfan yn dibynnu ar eu hanghenion. Maent yn gwneud hyn drwy brosiectau, gweithgareddau a hyfforddiant a drefnir gan y Cyngor, elusennau a sefydliadau eraill. Mae canran uchel o deuluoedd yn nodi fod gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau yn dilyn derbyn ymyrraeth.

Mae 90% o deuluoedd yn adrodd eu bod wedi gweld gwelliant arwyddocaol yn eu bywydau teuluol wedi iddynt dderbyn yr ymyrraeth.



Mae gwaith gofal cymdeithasol Plant a Theuluoedd yn waith heriol. Y patrwm yn aml yn genedlaethol yw bod y gweithlu ar adegau yn ansefydlog. Yng Ngwynedd, mae'r darlun yn un tra gwahanol, gan fod gennym **weithlu sefydlog** a phrofiadol ers sawl blwyddyn bellach. Mae peidio newid gweithwyr cymdeithasol yn aml yn sicrhau cysondeb a sefydlogrwydd hollbwysig i blant a'u teuluoedd. Mae bod yn gyfarwydd â'r naill a'r llall yn rhoi'r cyfle gorau i fagu a datblygu perthnasau cadarnhaol sydd yn elfen hollbwysig wrth gynnig ymyrraeth er mwyn ceisio sicrhau newid cadarnhaol.



Safon Ansawdd 06

Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llefydd addas sy'n bodloni'u hanghenion.

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- Darparu cefnogaeth i bobl gyfranogi fel dinasyddion gweithgar yn economaidd ac yn gymdeithasol
- Darparu cefnogaeth i bobl gael gwaith ystyrlon a chynnal y gwaith hwnnw
- Darparu cefnogaeth i bobl gael cyngor a chymorth ariannol a help gyda budd-daliadau a grantiau
- Darparu mynediad i wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill o ddewis
- Darparu cefnogaeth i bobl gael llefydd sy'n diwallu eu hanghenion ac i hwyluso byw'n annibynnol

Gwerthusiad o gynnydd yn erbyn Safon Ansawdd Chwech

Un o flaenoriaethau mwyaf Gwynedd yw sicrhau **digon o dai pwrpasol** ac o safon i gyfarch anghenion poblogaeth sydd yn newid. Rydym yn ystod y flwyddyn wedi cynnal arolwg o anghenion tai yng Ngwynedd ac mae canfyddiadau'r asesiad yma, ynghyd ag asesiadau poblogaeth, wedi ein helpu i gael darlun cyfansawdd clir o'r galw am dai a'r heriau sydd yn ein hwynebu. Mae canfyddiadau'r asesiadau yn dangos bod y galw am dai cymdeithasol a fforddiadwy yng Ngwynedd ar hyn o bryd yn uwch na'r cyflenwad sydd ar gael ac nid yw'n ymateb presennol yn cyfarch anghenion y boblogaeth leol rŵan nac i genedlaethau'r dyfodol. Mae ein hasesiadau yn dangos hefyd bod nifer cynyddol o bobl yn ddigartref neu mewn perygl o ganfod eu hunain yn ddigartref yng Ngwynedd. Gan ddefnyddio'r wybodaeth yma, rydym wedi llunio **Strategaeth Dai** sydd yn anelu i uchafu'r cyflenwad a safonau tai yng Ngwynedd yn ogystal â gwella mynediad

i dai drwy gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl i'w galluogi i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau.

Fel rhan o'n hymdrech i gyfarch yr her ddemograffig ac i sicrhau darpariaeth ddigonol i bobl hŷn sy'n hybu annibyniaeth, rydym wedi bod yn gweithio ar gynllun **Tai Gofal Ychwanegol Hafod y Gest**. Braf yw cael adrodd bu i denantiaid cyntaf Tai Gofal Ychwanegol Hafod y Gest symud i mewn yn ystod Ionawr 2019. Mae'r datblygiad hwn yn bartneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Grŵp Cynefin a datblygwyd y cynllun gan 'Anwyl Construction'. Mae wedi'i leoli yng nghanol tref a chymuned Porthmadog, ac wedi ei leoli'n agos at siopau a chyfleusterau'r dref. Mae ymateb preswylwyr i'r datblygiad wedi bod yn bositif iawn, ac mae'n caniatáu i bobl hŷn yn yr ardal elwa o fyw'n annibynnol mewn amgylchedd gymunedol ddiogel gyda gwasanaethau gofal hyblyg hefyd ar gael.



Hafod y Gest

Mae'r Cyngor yn gweithredu er mwyn **atal digartrefedd**, ond hefyd er mwyn darparu cefnogaeth i deuluoedd neu unigolion sy'n ddigartref. Rydym wedi gweld cynnydd o 35% yn y nifer sy'n cyflwyno'u hunain i fod yn ddigartref, neu o dan fygythiad o fod yn ddigartref, dros y pum mlynedd ddiwethaf. Llynedd darparwyd gwasanaeth ar gyfer 768 o unigolion. Mae perfformiad yr uned ymhlith y gorau yng Nghymru yn y meysydd atal digartrefedd ac mae'n cyd-fynd â'r pwyslais o ran atal.

Bu i'r Cyngor weld pwysau cynyddol wrth geisio canfod llety i'r rhai sydd yn gadael carchar. I'r perwyl hwn, gydag arian grant gan Lywodraeth Cymru, mae'r gwasanaeth digartrefedd wedi ariannu prosiect i gydlynu gwasanaeth ar

gyfer pobl sy'n gadael carchar. Rydym wedi datblygu cynllun ailsefydlu carcharorion, sydd yn ffordd newydd o weithio, gan roi'r client yn ganolog. Mae'r Swyddog 'Ail Sefydlu' yn un pwynt cyswllt sydd yn darparu gwasanaeth cyn ac ar ôl i'r unigolion gael eu rhyddhau. Rydym yn cydweithio'n agos gyda'n partneriaid allweddol i adnabod llety yn gynnar a chyd-gynllunio y trefniadau lletya cyn i'r unigolyn gael ei ryddhau o'r carchar.

Mae'r 'Tîm Tag Gwag' wedi gweld llwyddiant ysgubol ar eu cynllun **'Grantiau i brynwyr tro cyntaf'**. Yn ystod 2018/19, mae'r Tîm wedi derbyn 115 o geisiadau am y grant hwn, ac eisoes wedi cymeradwyo gwerth £1.5m ar gyfer 85 o'r ceisiadau, fydd yn ei dro yn cartrefu bron i 200 o unigolion a theuluoedd. Ers cychwyn y

cynllun rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer o geisiadau am flaendal morgeisi sydd ar gael i helpu prynwyr tro cyntaf gael mynediad i'r farchnad dai. Mae nifer uchel o dai gwag ar draws Gwynedd, ac mae'r Cyngor wedi gweithio i ddod a'r tai hyn yn ôl i ddefnydd ar gyfer trigolion Gwynedd. Ar hyn o bryd, mae oddeutu 1,300 o dai yn wag ar draws y Sir. Mae cynnydd positif wedi bod yn erbyn y mesurydd "Canran o anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1af Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol". Erbyn diwedd 2018/19 daethpwyd â 61 tŷ gwag yn dod yn ôl i ddefnydd a chartrefwyd 141 o bobl Gwynedd fel canlyniad i hynny.



**o unedau tai
fforddiadwy wedi eu
sicrhau i Wynedd yn
ystod 2018/19.**

Mewn ymateb i'r **ddiffyg eiddo un llofft**, mae'r gwasanaeth yn gweithio ar y cyd gyda'r asiantaeth Trydydd Sector, Cais, er mwyn adnabod eiddo ar gyfer pobl sengl fregus yn ardal Bangor. Mae cynllun yn cael ei ddatblygu fydd yn darparu llety a chefnogaeth ddwys ar gyfer 8 unigolyn, gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau unigolion i'w galluogi i fyw'n annibynnol.

Datblygiad arall o fewn y maes digartrefedd yw'r prosiect 'cefnogaeth ddwys i bobl sydd yn cysgu allan'. Mae'r gwasanaeth yn cydweithio gyda Thai Gogledd Cymru, a drwy help grant Llywodraeth Cymru, mae swyddog cefnogaeth wedi cael ei benodi i geisio annog pobl i weithio gyda ni er mwyn i ni allu eu helpu i ddatrys eu problemau a'u cefnogi i symud ymlaen i lety sefydlog. I'r perwyl hwn, rydym wedi cyflwyno cais am arian '**Rhaglen Tai Arloesol**' Llywodraeth Cymru ac wedi bod yn

llwyddiannus i ddenu arian ar gyfer datblygu unedau hyblyg 'pods'. Bydd yr unedau yma yn cynnig cartref gyda chefnogaeth i'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau. Y bwriad yw datblygu 4 'pod' ar gyfer 4 unigolyn. Mae'r cynlluniau arloesol yma wedi denu diddordeb ar lefel lleol a chenedlaethol. Rydym yn ffyddiog bydd y "pods" yn eu lle erbyn diwedd Mawrth 2020.

Mae'r Rhaglen **Cefnogi Pobl** yn rhoi cymorth i bobl sy'n agored i niwed i reoli, neu gynnal, eu tenantiaeth er mwyn byw'n annibynnol. Yn ystod 2018/19 mae'r rhaglen yng Ngwynedd wedi cefnogi 2,157 unigolyn i gael mynediad a chynnal tenantiaethau parhaol neu dros dro. Oherwydd newid deddfwriaeth ac amodau'r grant cefnogi pobl, ceir mwy o bwyslais nawr ar dargedu atal digartrefedd drwy ymyriadau cynharach a chreadigol. Rydym wedi datblygu gwasanaeth "galw heibio" mewn 2 ardal sydd yn cynnig cefnogaeth i bobl ifanc cyn yr angen am lety neu gefnogaeth fwy arbenigol.

Mae dadansoddiadau mapio yn cadarnhau mai ein grwpiau blaenoriaeth uchaf yw:

- y rhai sy'n dianc rhag cam-drin domestig
- pobl ifanc
- pobl sy'n gadael carchar
- pobl ddigartref rhwng 25 a 54 mlwydd oed
- rhai sydd yn camddefnyddio sylweddau a rhieni sengl.

Mae'r bwlch wedi bod yn amlwg dros y blynyddoedd diwethaf gyda chynnydd yn nifer ein cleientiaid sydd efo problemau iechyd meddwl dwys ac unai yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd. Mewn ymateb i hyn rydym wedi comisiynu gwasanaeth newydd gan 'Gorwel' fydd yn gweithio'n ddwys gydag unigolion sydd ag anghenion cymhleth, megis iechyd meddwl.

Rhan allweddol o'r gwasanaeth i blant yw ein gallu fel Cyngor i leoli plant gyda **rhieni maeth**. Fel Cyngor, rydym yn hynod falch o'n rhieni maeth, ac mae'r Tîm Maethu yn parhau i geisio sicrhau fod gennym ddigon o rieni maeth i ddiwallu anghenion plant sydd yn methu byw gartref. Bu i ni gynnal sawl ymgyrch recriwtio dros y pum mlynedd ddiwethaf i geisio annog mwy o bobl i fod yn rhieni maeth. Serch hyn, mae diffyg argaeledd o fewn y maes yn her i ni yng Ngwynedd. Ar lefel genedlaethol, mae cydnabyddiaeth bod diffyg lleoliadau maethu. I'r perwyl hyn, bu i'r 'Grŵp Cyngori Gweinidogol ar Ganlyniadau i Blant' gyhoeddi Fframwaith Gweithredu 2017 - 2020 sydd yn anelu i:

- Lleihau'r niferoedd o blant mewn gofal
- Gwella profiadau a chanlyniadau gofal
- Gwell cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal
- Mynd i'r afael a'r argyfwng mewn gofal

Fel rhan o'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol, mae rhaglen waith fanwl mewn lle sydd yn ceisio mynd i'r afael â'r mater. Mae rheolwr prosiect rhanbarthol yn arwain y gwaith yn y gogledd, sydd yn dadansoddi anghenion awdurdodau lleol, dadansoddi llwybrau gofal, dadansoddi proffil y carfan gofal, dadansoddi canlyniadau llys a lleoliadau a dadansoddi lefelau tor-leoliad. Ar lefel leol, mae gwaith yn bwrw 'mlaen i wella gwaith marchnata i ddenu rhieni maeth, gwella recriwtio a gwella proffil Gwynedd fel asiant maethu. Fel Cyngor rydym yn rieni corfforaethol, ac mae angen i ni fod yn fyw i'r her yma a chefnogi'r gwaith yma ble gallwn.

Mae llwyddiant cydweithio rhwng y teuluoedd a'r Tîm Trothwy Gofal yn golygu bod nifer o blant wedi gallu aros adref gyda'u teuluoedd, rhai wedi gallu dychwelyd adref o ofal maeth a gofal preswyl, ynghyd â sicrhau bod lleoliadau maeth bregus wedi'u sefydlogi yn sylweddol. Er i nifer y plant sy'n derbyn gofal gynyddu yn ystod cyfnod gweithredu'r tîm, mae nifer y plant mewn lleoliadau maeth neu leoliadau preswyl wedi aros yn sefydlog.



4. Sut yr ydym yn gwneud yr hyn yr ydym yn ei wneud?

Yr Iaith Gymraeg a chyflawni yn erbyn gofynion Fframwaith 'Mwy na Geiriau'

Rhan greiddiol o unrhyw ddarpariaeth gofal yw'r angen i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu derbyn y gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg. Ers 1996 rydym yn gweithredu'n ddwyieithog ymhob agwedd o'n gwaith. Mae ein polisi o ran yr iaith Gymraeg wedi ymestyn i brosesau a gofynion recriwtio, casglu data, cytundebau, comisiynu, caffael a hyfforddiant.

Fel Cyngor, rydym wedi ymrwymo'n llawn i ofynion 'Mwy na Geiriau'. Rydym yn croesawu egwyddorion y Fframwaith Strategol Olynol a gyhoeddwyd yn 2016. Rwy'n arwain yn genedlaethol ar yr agenda 'Mwy na Geiriau' ar ran Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac yn aelod o Fwrdd Partneriaeth yr Iaith Gymraeg, sydd yn cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru.

Fel Cyngor, rydym yn cyfrannu'n llawn i Fforwm 'Mwy na Geiriau' Gogledd Cymru a rwyf bellach fel Cyfarwyddwr yn cadeirio'r Fforwm hwn. Mae'r Fforwm yn rhannu syniadau ac yn gyfle gwyb i gydweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd, cynghorau a mudiadau eraill.

Mae ymrwymiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd i egwyddorion 'Mwy na Geiriau' yn adlewyrchiad o'r ymrwymiad a'r flaenoriaeth a roddir ar draws y Cyngor i gynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Dynodwyd uwch swyddog i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y maes gofal. Mae'r swyddog yma hefyd yn cael ei adnabod fel 'Llysgennad Busnes' i gydweithio gyda Gyrfa Cymru.

Rydym nawr mewn gwell sefyllfa i gofnodi'r data ieithyddol ers i'r system gyfrifiadurol newydd WCCIS ddod i rym. Yn y dyfodol, bydd adroddiadau o'r system WCCIS yn fodd i adnabod gwendidau a diffygion y ddarpariaeth o ran y Cynnig Rhagweithiol a fydd wedyn yn bwydo i mewn i'r broses cynllunio a chomisiynu.

Wrth adolygu cytundebau Gofal Preswyl a Gofal Cartref yn ddiweddar, rydym wedi gosod disgwyliad ar ddarparwyr i baratoi Polisi Iaith i ddangos sut y byddent yn cyflawni egwyddorion 'Mwy na Geiriau' ac i ffurfio cynllun gwella. O ganlyniad, gallwn sicrhau bod egwyddorion 'Mwy na Geiriau' yn prif ffrydio i bob agwedd o wasanaethau y byddwn yn eu comisiynu.

Cynhaliodd y Cyngor waith ymchwil ehangach dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd, sy'n ein helpu i gael gwell darlun o sut mae gwasanaethau yn llwyddo i gynnig gwasanaethau dwyieithog. Cynhaliwyd awdit iaith, oedd yn cynnwys casglu gwybodaeth gan reolwyr am allu eu timau ac unedau i weithredu a darparu gwasanaethau yn ddwyieithog. Cafwyd darlun cadarnhaol iawn ar y cyfan. Er hynny, rydym yn ymwybodol bod diffygion mewn rhai ardaloedd ac rydym yn parhau i gynllunio i geisio ymateb i hyn.

Ar ddiwedd 2018/19 roedd tua 88% o staff y gwasanaethau cymdeithasol yn gallu'r Gymraeg ac rydym yn hyderus iawn yng ngallu'r Cyngor i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol.



Ein gweithlu a sut yr ydym yn cefnogi eu swyddogaeth broffesiynol

Mae gofal cymdeithasol yng Ngwynedd yn cael ei ddarparu gan nifer o asiantaethau o'r sector preifat, y trydydd sector a chan wasanaethau statudol. Mae gwaith ymchwil diweddar yn dangos bod y sector gofal cymdeithasol yn creu gwerth economaidd ehangach ac er mwyn ceisio denu mwy o ddiddordeb gyrfaoel bydd angen i ni godi proffil a statws gwaith gofal cymdeithasol.

I'r perwyl hwn, rydym wedi adnabod yr angen i wneud gwaith pellach ar hyn a mae prosiect o fewn Cynllun y Cyngor 2018-23 yn rhoi sylw i'r mater yma. Mae tua 3,000 o aelodau staff wedi bod yn gyflogedig yn y sector Gofal Cymdeithasol yng Ngwynedd yn ystod y flwyddyn. Mae 122 o weithwyr cymdeithasol yn gweithio i'r Cyngor ar draws meysydd plant ac oedolion ac rydym yn ffodus yng Ngwynedd ein bod yn llwyddo i gadw staff profiadol.

Mae'r Fframwaith Cymwysterau ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn gosod sylfaen ar gyfer cymwysterau addas yng ngofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol. Fel rhan o'r broses cofrestru gwasanaethau, mae'r arolygaeth yn disgwyl i weithwyr gofal gwblhau cymhwyster addas i'w swyddi ac mae canran uchel o weithwyr wedi cwblhau'r cymwysterau angenrheidiol. Mae'r Uned Datblygu'r Gweithlu yn cynnig amrediad o raglenni hyfforddiant i ddarparwyr mewnol a'u partneriaid. Yn ogystal, mae gennym raglen hyfforddiant a chefnogaeth gynhwysfawr i weithwyr cymdeithasol yn eu blwyddyn gyntaf o ymarfer, yn ogystal â rhaglen tair blynedd ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd eu cymhwyso.

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn amlinellu bod disgwyliad i weithwyr gofal cartref ddechrau cofrestru fel gweithlu cofrestredig o 2018 ymlaen, a gweithwyr preswyl o 2020 ymlaen. Fel Cyngor rydym wedi dechrau gweithio i sicrhau bod gan ein gweithlu'r cymwysterau angenrheidiol er mwyn cofrestru.

Mae trosiant staff yn parhau i fod yn broblem o fewn y gweithlu Gofal Cartref ac wedi ei adnabod fel blaenoriaeth i'r Cyngor. Bu nifer o ymdrechion recriwtio yn ystod y flwyddyn gan gynnwys gweithio gyda cholegau lleol i adnabod unigolion i fynd ar y Cynllun Prentisiaeth mewn Gofal. Rydym hefyd wedi bod yn cydlynu profiad gwaith er mwyn denu pobl ifanc i'r maes ac yn mynychu ffeiriau recriwtio. Mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor a siroedd cyfagos rydym yn cynnig 16 lleoliad y flwyddyn i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol.

Mae hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ddementia wedi ei gynnal yn ystod y flwyddyn ar gyfer yr holl weithlu. Yn ogystal mae Uned Hyfforddi a Datblygu'r Cyngor wedi bod yn rhedeg rhaglen 'Moeseg, Rhagoriaeth Ac Ymgysylltu'. Nod y rhaglen yw sicrhau parhad gwasanaeth tymor hir ac i wneud y mwyaf o gapasiti cymunedau i gefnogi pobl a theuluoedd sy'n byw gyda dementia i fwynhau'r ansawdd bywyd gorau posibl. I'r perwyl hwn, rydym yn cyflwyno rhaglen hyfforddiant prwpasol tuag at ragoriaeth.

Mae'r hyfforddiant 'Collaborative Conversations' ar gyfer y timau gwaith cymdeithasol wedi parhau yn ystod y flwyddyn gyda ffocws yr hyfforddiant ar adnabod yr hyn sy'n bwysig i unigolion.

Ein hadnoddau ariannol a sut yr ydym yn Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Rhaid cofio bod cyllideb y Cyngor wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf oherwydd y lleihad yn y grant a ddaw gan Lywodraeth Cymru. Tra bod yr arian sy'n dod i mewn atom yn lleihau, mae'r galw ar ein gwasanaethau, a'n cyllideb fel Cyngor, yn cynyddu. Mae pobl yn byw yn hirach, ac yn aml mae ganddynt gyflyrau iechyd cymhleth, sydd yn ei dro yn gallu golygu'r angen am wariant uwch. Mae hi'n gryn dasg felly i gadw'r ddysgl ariannol yn wastad er mwyn sicrhau ein bod yn gallu darparu gwasanaethau sy'n gwbl angenrheidiol i bobl Gwynedd.

Yn sgil yr heriau yma, rydym wedi ceisio bod yn fwy hyblyg a chreadigol yn y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau. O ganlyniad rydym wedi ceisio cadw effaith ar bobl Gwynedd i'r lleiafswm posib, gan geisio parhau i gyflawni mwy yn y meysydd hynny sydd o flaenoriaeth. Rhan o hyn yw ceisio sicrhau ein bod yn edrych ar ffyrdd gwell a di-dor o ddarparu ein gwasanaethau i bobl. Nododd yr Adolygiad Seneddol, ac yn fwy diweddar, Cymru lachach, bod modd i ni weithio mewn ffordd integredig a drwy ddefnyddio technoleg ac y byddai hyn yn gwella ansawdd gwasanaethau iechyd a gofal i bobl. Mae cynlluniau lleol trawsffurfiol eu natur felly ar y gweill fydd yn ceisio ymateb i'r her o gyflenwi gwasanaethau iechyd a gofal mewn dulliau mwy cydlynus o fewn yr amlen ariannol.

Gweithio mewn partneriaeth

Rhan greiddiol o'n gwaith ar hyn o bryd yw gweithio gyda'n partneriaid allweddol, megis lechyd a'r trydydd sector, drwy drefniadau lleol a rhanbarthol. Mae rhaglenni cynhwysfawr ar y gweill, sydd yn anelu i drawsffurfio ein diwylliant ac ymarfer, gyda chefnogaeth arian y Llywodraeth drwy'r Grant Trawsffurfio. Mae trefniadau llywodraethu cadarn yn eu lle ar draws Gwynedd a Môn er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio fel un.

Partner allweddol i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl yw'r trydydd sector. Mae Grŵp Cyswllt mewn lle o fewn y Cyngor gyda'r bwriad o gael trosolwg o'r maes a'r sicrwydd bod cydweithio effeithiol rhwng y sefydliadau statudol a'r trydydd sector. Mae trefniadau'r grŵp wedi'u cryfhau yn ddiweddar gan geisio sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn glir. Mae cyflwyniadau ac ymweliadau yn digwydd drwy'r Grŵp Cyswllt sydd yn sicrhau bod materion yn cael eu trafod yn agored a chadarnhaol.

Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd

Rhan o'r Ddeddf sy'n bwysig imi dynnu eich sylw ati yw Rhan 8, sy'n nodi'r gofynion sydd arnaf fel Cyfarwyddwr Statudol am Wasanaethau Cymdeithasol. Mae Cabinet Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo 'Protocol y Cyfarwyddwr'. Dogfen yw hon sy'n amlinellu sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfarch y gofynion deddfwriaethol. Mae'r protocol hwn yn sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn ynghyd â llinellau atebolrwydd cryf. Mae'r protocol hwn ar y wefan, ac mae'n bwysig fod staff ac aelodau hefyd yn ymgyswngwyo eu hunain â'r gofynion.

Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu mewnol cadarn i gefnogi rheolaeth effeithiol o wasanaethu cymdeithasol. Yn ogystal â chyflwyno adroddiadau i bwyllgorau craffu, mae gennym hefyd strwythur herio perfformiad adrannol sefydlog. Rydym hefyd yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r Arolygaeth i sicrhau bod ein gweithdrefnau'n gadarn. Mae'r Pwyllgorau Craffu wedi cyfrannu'n helaeth eto eleni wrth graffu meysydd arbennig a chynnig persbectifau pwysig inni er mwyn gwella'n barhaus.

Mae'r Cyngor wedi pennu dau o aelodau'r Cabinet ar gyfer y meysydd o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol, sef y Cyngorydd Dafydd Meurig ar gyfer y meysydd Oedolion, Iechyd a Llesiant, a'r Cyngorydd Dilwyn Morgan ar gyfer y meysydd Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Dysgu a Datblygu

Fel sydd eisoes wedi'i nodi yn yr adroddiad blynyddol hwn, mae dysgu a gwella yn rhan allweddol i ni os yr ydym am wella ein perfformiad a chyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd.

Mae trefniadau yn eu lle i adrodd yn ôl yn gyson ar gwynion sy'n codi o'r maes gofal, a gwneir pob ymdrech i ddatrys, ymateb, a dysgu ohonynt cyn gynted ag y bo modd. Mae derbyn barn ein defnyddwyr gwasanaeth am ansawdd ein gwasanaethau yn bwysig iawn i ni os yr ydym am wella'n barhaus, ac mae'r drefn cwynion yn rhan o hyn. Cyhoeddir adroddiad

blynyddol penodol ar gwynion, sy'n cynnig trosolwg o'r holl gwynion a dderbyniwyd ar draws holl adrannau'r Cyngor yn ystod 2018/19, ond hoffwn gymryd y cyfle yn yr adroddiad hwn i grynhoi'r prif negeseuon sy'n berthnasol i feysydd iechyd a gofal cymdeithasol.

Y nod yw ymateb i bob cwyn gyda thegwch, didueddrwydd a pharch fel bod yr unigolyn yn hyderus y bydd eu cwyn yn derbyn ymdriniaeth broffesiynol a hynny mewn modd positif. Yn aml, pan mae'r unigolyn yn dewis peidio â dilyn y Drefn Gwynion ffurfiol fe ymdrinnir â'r mater fel ymholiad, cwyn anffurfiol, neu 'Cam 1'.

Mae'r Cyngor wedi pennu dau o aelodau'r Cabinet ar gyfer y meysydd o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol, sef y Cynghorydd Dafydd Meurig ar gyfer y meysydd Oedolion, lechyd a Llesiant, a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan ar gyfer y meysydd Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Trwy ymateb yn bositif yn ystod y camau cynnar hyn, gall rhai materion gael eu datrys yn effeithiol heb fod angen dilyn y Drefn Gwynion ffurfiol gan fod hwn yn gyfle i ymdrin ag unrhyw gamddealltwriaeth neu ymateb i ymholiadau. Heb os, dyma'r canlyniad gorau i bawb. Un o'r themâu amlwg wrth ddelio ag ymholiadau a chwynion anffurfiol ydy camddealltwriaeth rhwng pobl oherwydd diffyg cyfathrebu clir neu gyfathrebu cyson.

Trwy ddilyn yr egwyddor o ganolbwyntio ar ddatrysiad buan a lleol yn llwyddiannus, yn arferol, nid oes rhaid i gwynion gael eu dwysáu i'w hymchwilio o dan drefniadau Cam 2 o'r Drefn Gwynion, sef ymchwiliad annibynnol er mwyn datrys anghydfod/anawsterau/materion. Mewn cymhariaeth ag Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru, mae Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Adran Oedolion, lechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd yn hynod llwyddiannus wrth ddelio â chwynion yng Ngham 1, tra mae cyfran uwch o gwynion Awdurdodau eraill yn cael eu huchafu i Gam 2.

Yn ystod 2018/2019, derbyniodd yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd un cais i uchafu cwyn i Gam 2 o'r Drefn Gwynion Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol. Cwblhawyd yr ymchwiliad yn ystod Chwarter 2 a Chwarter 3. Cafodd cais ei gyflwyno gan achwynydd arall yn ystod Chwarter 3 i gŵyn gael ei hymchwilio o dan drefniadau Cam 2 yn syth heb fynd drwy brosesau Cam 1 yn gyntaf. Fodd bynnag hyd yma, nid yw wedi bod yn bosibl cychwyn yr ymchwiliad Cam 2, gan nad yw'r achwynydd wedi cytuno â chwmpas y gŵyn i'w hymchwilio gan yr Ymchwilydd Annibynnol sydd wedi ei phenodi. Mae ymdrechion yr Adran yn parhau i geisio gweithio gyda'r achwynydd i gadarnhau cwmpas y gŵyn er mwyn sicrhau bod cwyn yr achwynydd yn derbyn ymchwiliad llawn a theg o dan drefniadau Cam 2 o'r Drefn Gwynion.

Yn ystod 2018/2019, derbyniodd yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant bedwar cais i symud cwynion ymlaen o Gam 1 i Gam 2 o'r broses Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r tri o'r ymchwiliadau wedi dod i ben ac mae ymatebion cynhwysfawr wedi cael eu darparu i'r achwynwyr unigol. Cyn belled ag rydym yn ymwybodol, nid yw'r achosion yma wedi cael eu cyfeirio at yr Ombwdsmon gan yr achwynwyr hyd yma.

5. Blaenoriaethau 2019/20

Dyma brif flaenoriaethau Gwasanaethau Cymdeithasol am y flwyddyn 2019/20:

- Ail ddylunio gwasanaethau i gyd-fynd ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac egwyddorion Cymru Iachach
 - Rhaglen Drawsffurfio Cymunedau
 - Rhaglen Iechyd Meddwl
 - Rhaglen Anableddau Dysgu
 - Rhaglen Plant a Chefnogi Teuluoedd
- Cryfhau gwydnwch cymunedau
 - Rhaglen Dementia (gan gynnwys Dementia Go)
 - Rhaglen Pontio Cenedlaethau
 - IAA
- Gwelliannau o adborth AGC/CIW/Comisiynwyr
 - Gwelliannau o adroddiad AGC Plant
 - Cryfhau'n bellach materion diogelu oedolion
- Mabwysiadu a gweithredu Strategaeth Tai Cyngor Gwynedd 2019/24



6. Mynediad at wybodaeth bellach a dogfennau allweddol



Asesiadau Llesiant a Phoblogaeth

[Asesiad Llesiant Gwynedd](http://llesiantgwynedd.comon.org)
(llesiantgwynedd.comon.org)

[Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn](http://llesiantgwynedd.comon.org)
(llesiantgwynedd.comon.org)

[Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru](http://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru)
(www.cydweithredfagogleddcymru.cymru)

Polisiau Gwynedd

[Gwybodaeth Hyfforddiant](http://www.gwynedd.llyw.cymru)
(www.gwynedd.llyw.cymru)

[Polisi Iaith](http://www.gwynedd.llyw.cymru)
(www.gwynedd.llyw.cymru)

[Gwranddo, gwella, ymateb](http://www.gwynedd.llyw.cymru)
(www.gwynedd.llyw.cymru)

Adroddiadau Cenedlaethol

[Adroddiad Mwy na Geiriau](http://www.llyw.cymru)
(www.llyw.cymru)

[Adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn - Lle i Alw'n Gartref](http://www.olderpeoplewales.com)
(www.olderpeoplewales.com)

[Adroddiad y Comisiynydd Plant - Breuddwydion Cudd](http://www.childcomwales.org.uk)
(www.childcomwales.org.uk)

[Adolygiad Seneddol i Iechyd a Gofal yng Nghymru](http://www.llyw.cymru)
(www.llyw.cymru)

Mynediad at wybodaeth bellach

[Dewis Cymru](http://www.dewis.cymru)
(www.dewis.cymru)

Pryderu am unigolyn.

Os ydych yn gwybod am unigolyn sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu yn cael ei gam-drin, mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i'r Cyngor neu'r heddlu.

Os yw'r unigolyn mewn perygl uniongyrchol ffoniwch yr heddlu ar 999. Os nad yw mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch y Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted ag y bo modd i rannu eich pryderon.

Plentyn:

01766 772577
01248 353551 (y tu allan i oriau gwaith)
cyfeiriadauplant@gwynedd.llyw.cymru

Oedolyn:

01766 772577
01248 353551 (y tu allan i oriau gwaith)

Atodiad 1 - Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd 2018/19

Adran Oedolion Iechyd a Llesiant

Mesur	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Nifer y defnyddwyr gwasanaethau oedolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol	121	-	121	139	142
Canran o bobl hŷn a phobl sydd ag anableddau corfforol lle gweler cynnydd mewn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy	-	-	88%	80.5%	98.8%
Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd	1.05	2.38	3.40	4.9	5.23
Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli	100%	96.7%	97.9%	97.6%	91.5%
O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli (gan eithrio'r rhai sydd wedi gwrthod ymyrraeth)	-	99%	100%	99.4%	93.1%
Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl	316	271	281	204	211
Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol	5.7%	5.13%	3.68%	4.82%	4.7%
Nifer o unedau tai fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd	144	48	71	77	87
Cyfnod (nifer dyddiau) mae wedi gymryd i'r Uned Ddiggartrefedd gyflawni cynllun atal i'r rhai sydd o dan fygythiad	84.94	69.08	77.73	101	
Cyfnod a dreuliwyd mewn llety dros dro (nifer dyddiau)	75.82	126.02	104.44	92	89.57

Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Mesur	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Canran plant 2 oed sy'n bresennol yn **Dechrau'n Deg	82%	83%	84%	81%	79%
Nifer o'r pecynnau cymorth uwch riantu sy'n arwain at deithio pellter cadarnhaol	38%	48%	89%	65%	89%
Canran o deuluoedd sydd wedi adrodd cynnydd yn dilyn derbyn gwasanaeth gan Tîm o Amgylch y Teulu (Gyda'n Gilydd)	30%	25%	95%	92%	90%
Cynllun trosiannol wedi ei gytuno ar gyfer plant anabl 16 oed	100%	100%		100%	100%
Cynllun llwybr wedi ei gytuno ar gyfer plant mewn gofal	100%	100%	100%	99%	97%
Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth	18.7%	18.1%	17.1%	10%	16.7%
Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn	6.2%	7.7%	6%	7.5%	5.9%
Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn	93.8%	91%	91%	89%	85%
Canran yr adolygiadau amddiffyn plant wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn		85.5%	92.0%	90%	94%

(Parhau ar y dudalen nesaf)

	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau	89%	86.9%	90%	92%	93%
Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd â chynlluniau llwybr yn ôl yr angen	100%	100%	100%	100%	97%
Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd wedi cael cynghorydd personol wedi'i ddyrannu iddynt	100%	100%	100%	100%	100%
Canran o gynadleddau achos lle bu clywed llais/barn y plentyn (ac eithrio plant o dan 7 oed)	83%	85%	84%	92%	99%
Cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed arwyddocaol (a'r ateb wedi ei gofnodi)	100%	100%	100%	100%	100%
Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau	98%	97%	94%	96%	99%